**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Y Pwyllgor Busnes**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

10 Mawrth 2023

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar gyfer y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio).**

Annwyl John,

Diolch i chi am eich llythyr ar 23 Chwefror ynghylch yr amser cyfyngedig oedd ar gael i graffu ar yr Memorandwm Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio).

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y llythyr ar 28 Chwefror a nodi'r pryderon a godwyd gennych, mewn perthynas â'r Memoranndwm Atodol hwn a'r broses gyffredinol o ran Memoranda. Rydym yn gwerthfawrogi'r effaith y mae amser craffu cyfyngedig yn ei chael ar faint o waith craffu sy'n bosibl. Yn ystod ein hystyriaeth o'ch llythyr, nododd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd mai achos y trafferthion yn yr achos hwn oedd cytuno'n hwyr ar y gwelliannau yn San Steffan ac ychydig iawn o ymgysylltu ymlaen llaw rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Yn yr un cyfarfod, cawsom lythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd mewn perthynas â materion tebyg ar Femorandwm gwahanol. Yn y llythyr hwnnw, nododd y Gweinidog bod Llywodraeth Cymru'n parhau i fod wedi ymrwymo i osod Memoranda "mewn modd amserol a sicrhau bod y Senedd yn cael gymaint o gyfle i graffu â phosibl." Mae'r llythyr hefyd yn honni y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i godi gyda Llywodraeth y DU bwysigrwydd ymgysylltu'n well a bydd yn gofyn i

Lywodraeth y DU ddarparu ar gyfer prosesau'r Senedd wrth ystyried amserlenni ei Biliau.

Fel y gwyddoch, cyfeiriodd y Gweinidog Newid Hinsawdd at ystyriaethau tebyg yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Memorandwm ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), hefyd ar 28 Chwefror.

Yn yr un ddadl, cadarnhaodd y Gweinidog fod gwelliannau pellach wedi'u cyflwyno i'r Bil yn San Steffan ac y gallai'r rhain ysgogi gofyniad pellach am ganiatâd. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bwriad i ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ystyried effaith hynny ar allu'r Senedd i graffu'n effeithiol ar y Bil. Fel Pwyllgor Busnes, byddwn yn parhau i adolygu'r materion hyn.

Hoffwn ddiolch i'ch Pwyllgor am y gwaith y mae wedi'i wneud hyd yma a bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, sydd wedi codi pryderon tebyg yn y gorffennol.

Cofion cynnes

Elin Jones

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.